**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

12 Ionawr 2024

Annwyl Peredur,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod y bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn cael ei gynnal ar 25 Ionawr yng Nghaeredin, er ein bod yn aros am gytundeb terfynol ar y trefniadau.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar flaenoriaethau economaidd a chyllidol. Byddaf yn rhoi diweddariad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, ac yn amlinellu'r penderfyniadau anodd yr ydym wedi eu gwneud i sicrhau bod ein cynlluniau gwariant yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Byddaf hefyd yn pwyso ar Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i ddarparu eglurder o ran y newidiadau y gallwn eu disgwyl i'n setliad cyllidebol ar gyfer 2023-24 yn Amcangyfrifon Atodol y DU ym mis Chwefror, gan gynnwys cadarnhad o ran a fyddwn yn derbyn cyllid canlyniadol o ganlyniad i ddyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus yn Lloegr.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'n debygol mai hwn fydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid olaf cyn Cyllideb y Gwanwyn y DU. Byddaf yn cyflwyno'r achos o blaid buddsoddi ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â pharhau i bwyso am gymorth gan Lywodraeth y DU i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus. Hefyd, bydd trafodaeth ar baratoadau Llywodraeth y DU ar gyfer Adolygiad o Wariant nesaf y DU. Byddaf yn ceisio sicrwydd y bydd fy swyddogion yn cymryd rhan yn y gwaith hwn a fydd yn dod i ben yn yr hydref.

Bydd y cyfarfod hefyd yn canolbwyntio ar drechu tlodi. Dyma gyfle i drafod y camau economaidd a chyllidol sy'n cael eu cymryd ar draws y gwledydd, yn ogystal ag ystyried ffyrdd o gydweithio.

Byddaf yn cyfarfod ar wahân â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys i drafod pwysau gwariant sy'n benodol i Gymru a'r rhagolygon economaidd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r cyfarfod.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government